

Nodiadau ar y ffurflen gwariant a rhoddion ar gyfer deisebau adalw

Dylech ddarllen y canllawiau cysylltiedig cyn cwblhau'r ffurflen hon.



Ar gyfer pwy y mae'r ffurflen hon:

Ymgyrchwyr deisebau cofrestredig y mae'n rhaid iddynt gyflwyno ffurflen gwariant a rhoddion. Rhaid iddi gael ei chwblhau gan yr unigolyn cyfrifol

Defnyddir y ffurflen hon i gofnodi manylion gwariant ar ymgyrchu adalw a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir, a'r rhoddion a gawsoch tuag at y gwariant hwnnw.

Cyn cwblhau'r ffurflen, dylech ddarllen ein [canllawiau gwariant a rhoddion](#) ar gyfer ymgyrchwyr deisebau adalw.

Nodiadau eglurhaol

Adran 1 a 2 - Manylion yr ymgyrchydd deisebau a'r ymgyrchydd deisebau cofrestredig.

Rhowch y manylion gofynnol o dan yr adran hon.

Gofynnwch i'r Swyddog Deisebau yn yr awdurdod lleol gael gwybod y dyddiad y cawsoch eich cofrestru a'r dyddiad yr hysbyswyd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin am ganlyniad y ddeiseb neu'r dyddiad yr hysbyswyd y Swyddog Deisebau bod y ddeiseb wedi dod i ben yn gynnar.

Adran 3 - Crynodeb o wariant a thafleenni gwaith

Rydym wedi darparu tafleenni gwaith gyda'r ffurflen i roi manylion ar:

- pob categori gwariant - y tabiau **glas**
- gwariant heb ei dalu - y tab **oren**

Ceir canllawiau cysylltiedig ar gyfer ymgyrchwyr deisebau [yma](#) a'r ffurflen gwariant a rhoddion [yma](#).

- hawliadau y ceir anghydfod yn eu cylch - y tab **coch**
- ymgyrchu ar y cyd - y tabiau **melyn**

Nodwch gan ddefnyddio'r rhestrau o'r cwymplenni pa daflenni gwaith rydych yn eu cyflwyno a nodwch hefyd sawl taflen waith ymgyrchoedd ar y cyd rydych yn eu cyflwyno.

Defnyddiwch y taflenni gwaith hyn i roi manylion y gwariant o dan y categori priodol. Os ydych yn cwblhau'r fersiwn Microsoft Excel o'r ffurflen hon, gallwch gynnwys cymaint o resi ag sydd eu hangen arnoch ar bob taflen waith i gofnodi pob eitem o wariant ar ymgyrchu.

Pan fyddwch wedi cyfrifo cyfanswm y symiau o dan bob categori, nodwch ef yn y rhes is-gyfansymiau yn nhablau 3a a 3b.

Os nad oes gennych unrhyw wariant i'w gofnodi ar gyfer categori, nid oes angen i chi gwblhau'r daflen waith, ond **rhaid** i chi nodi sero neu ddim ar gyfer y tabl crynodeb o wariant ar gyfer y categori hwnnw.

Dylai'r cyfansymiau ar gyfer gwariant ar ddeisebau yn adran 3a 'Mathau o daliadau' ac adran 3b 'Categoriâu o wariant' fod yr un peth. Os nad yw eich cyfansymiau yr un peth, rydych wedi gwneud camgymeriad wrth eu cyfrifo. Dylech fwrw golwg ar y wybodaeth a ddarparwyd gennych a'ch cyfrifiadau.

Nodwch gyfanswm ar gyfer y gwariant yr aethoch iddo cyn i chi gofrestru. **Ni** ddylai hyn gynnwys unrhyw wariant tybiannol y dylid ei gynnwys yn nhabl 3b a hanner uchaf 3a. Nodwch gyfanswm ar gyfer yr holl wariant yr aed iddo ar ymgyrchoedd ar y cyd. Eich is-gyfanswm a'r symiau a nodwyd yn ail hanner tabl 3a yw cyfanswm eich gwariant ar ddeisebau. **Rhaid** i hyn fod islaw £10,000.

Mae'r categorïau o ran dyrannu gwariant fel a ganlyn:

A - Hysbysebu

Mae hyn yn cynnwys hysbysebu o unrhyw fath e.e. posteri neu hysbysebion mewn papurau newydd. Mae'n cynnwys ffioedd asiantaeth, costau dylunio ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â pharatoi, llunio a dosbarthu hysbysebion.

B - Deunydd a anfonwyd at etholwyr yn ddigymell

Mae hyn yn cynnwys deunydd a anfonwyd at etholwyr yn ddigymell p'un a oedd cyfeiriad arno ai peidio. Mae'n cynnwys costau dylunio a phob cost arall sy'n gysylltiedig â pharatoi, llunio a dosbarthu deunydd o'r fath.



C - Cludiant

Mae cludiant yn cynnwys costau hurio ond nid yw'n cynnwys y defnydd o geir personol lle nad yw'r perchennog wedi codi tâl.

D - Cyfarfodydd cyhoeddus

Mae hyn yn cynnwys costau mewn cysylltiad â phresenoldeb pobl mewn cyfarfodydd, hurio safleoedd at ddibenion cynnal cyfarfodydd a darparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau ynddynt.

E - Unigolyn cyfrifol a chostau staff eraill

Mae hyn yn cynnwys talu am wasanaethau'r unigolyn cyfrifol, neu unrhyw un arall, a delir mewn cysylltiad ag ymgyrch y ddeiseb. Mae hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio ar ymgyrch y ddeiseb a delir gan yr ymgyrchydd deisebau.

F - Costau swyddfa a chostau gweinyddol

Mae hyn yn cynnwys costau cyffredinol rhentu swyddfa'r ymgyrch ynghyd â chyfleustodau.

Sut i gwblhau'r taflenni gwaith ar gyfer categorïau o wariant

Dim ond mewn un categori y dylai pob eitem o wariant ymddangos. Bydd modd categoreiddio rhai eitemau yn hawdd, ond efallai y bydd yn ymddangos bod gan eraill fwy nag un diben. Yn yr achosion hyn, rhaid i chi benderfynu ym mha gategori i roi'r eitem.

Yn gyffredinol, dylid gosod eitemau o dan eu diben naturiol, e.e. dylai costau cludiant yr unigolyn cyfrifol gael eu cynnwys o dan y categori cludiant hyd yn oed os yw'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn cyfarfod cyhoeddus.

Ar gyfer pob eitem o wariant, rhowch fanylion y canlynol:

- **Rhif yr eitem.** Dylid rhoi'r rhif '1' i'r taliad cyntaf a gofnodir ac yna rifo eitemau mewn trefn ar bob taflen waith. Ar gyfer pob taliad y ceir anfoneb i'w gefnogi, dylech roi'r un rhif ar yr anfoneb. Mae angen i rifau eitemau fod yn unigryw oherwydd fe'u defnyddir i groesgyfeirio â rhannau eraill o'r ffurflen ynghyd â'r anfonebau/derbynebau ategol.
- Nodwch p'un a gyflwynwyd **anfoneb** neu **dderbynneb**. Dewiswch o 'Ydy' neu 'Nac ydy' yn y gwymplen ar y daenlen Excel a ddarparwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Mae angen anfoneb neu dderbynneb ar gyfer pob eitem uwchlaw £20 ac eithrio gwariant tybiannol.
- Yr **eitem** neu'r **gwasanaeth** a ddefnyddiwyd.

- **Enw a chyfeiriad y cyflenwr** lle nad yw'n ymddangos ar anfoneb neu dderbynneb a gyflwynwyd gyda'r ffurflen.
- Y **dyddiad** y talwyd yr anfoneb.
- **Gwerth** yr eitem.
- Y **swm a dalwyd**, os yw'n wahanol i werth yr eitem. Dylid cynnwys taliadau sero lle y bo'n gymwys.
- Nodwch p'un a yw'r eitem yn un y mae **anghydfod yn ei chylch** neu'n **hawliad heb ei dalu**. Dewiswch o 'Ydy' neu 'Nac ydy' yn y gwymplen ar y daenlen Excel a ddarparwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Bydd angen i chi roi gwybodaeth ychwanegol am eitemau y mae anghydfod yn eu cylch neu eitemau heb eu talu ar y taflenni gwaith perthnasol (y tabiau **oren** a **choch**).
- Nodwch p'un a gafwyd yr eitem fel rhan o **ymgyrch ar y cyd**. Dewiswch o 'Ydy' neu 'Nac ydy' yn y gwymplen ar y daenlen Excel a ddarparwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Os byddwch yn dewis 'ydy' ar gyfer unrhyw eitem o wariant, rhaid i chi hefyd roi manylion y gwariant hwnnw yn y daflen waith ar gyfer ymgyrch ar y cyd (y tab **melyn**).

Cofiwch nodi pan fyddwch yn cynnwys taliad sero.



Hawliadau heb eu talu

Defnyddiwch y daflen waith ar gyfer hawliadau heb eu talu (y tab **oren**) i roi gwybod am anfonebau na chawsoch o fewn **21 diwrnod** i ddiwedd y cyfnod a reoleiddir.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r un rhif eitem i groesgyfeirio'r ddau gofnod yn y taflenni gwaith gwahanol. Dylech gynnwys manylion y llys rydych wedi cyflwyno cais iddo, neu y byddwch yn cyflwyno cais iddo, i wneud taliad hwyr.

Hawliadau sy'n destun anghydfod

Defnyddiwch y daflen waith ar gyfer hawliadau y ceir anghydfod yn eu cylch (y tab **coch**) i roi gwybod am anfonebau na wnaethoch eu talu o fewn **28 diwrnod** i ddiwedd y cyfnod a reoleiddir.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r un rhif eitem i groesgyfeirio'r cofnod hwn â'r cofnod ar daflen waith categori gwariant. Dylech ddarparu gwybodaeth am natur yr anghydfod ac unrhyw gamau gweithredu sydd ar waith gennych.

Ymgyrchu ar y cyd

Rhaid i chi roi gwybod am wariant yr aed iddo gan eich partneriaid ymgyrchu ar y cyd ar eich ffurflen gwariant. Defnyddiwch y daflen waith ar gyfer ymgyrch ar y cyd (y tab **melyn**) i roi manylion y gwariant yr aethoch iddo mewn ymgyrchoedd ar y cyd. Rhaid i chi roi cyfanswm ar gyfer gwariant cyn cofrestru a rhestru'r gwariant yr aethoch iddo ar ôl cofrestru a'r holl wariant tybiannol.

Dylech roi'r taflenni gwaith hyn i'ch partneriaid ymgyrchu ar y cyd i'w cyflwyno gyda'u ffurflen. Rhaid iddynt wneud yr un peth a rhaid i chi gyflwyno eu taflenni gwaith ymgyrchoedd ar y cyd gyda'ch ffurflen. **Ni** ddylid cyflwyno'r daflen waith hon gyda'ch ffurflen eich hun (gan fod yn rhaid i chi roi gwybod am eich holl wariant gan ddefnyddio'r tabiau **glas**).

Llenwch un daflen waith ar gyfer pob ymgyrch ar y cyd y gwnaethoch wario arian ynddi ac argraffwch gopi ar gyfer pob partner ymgyrchu ar y cyd y buoch yn gweithio gydag ef i'w gyflwyno gyda'i ffurflen gwariant.

Nid oes angen i chi ddarparu anfonebau ar gyfer gwariant yr aed iddo gan eich partneriaid ymgyrchu ar y cyd.

Adran 4 - Rhoddion a'r taflenni gwaith ar gyfer rhoi gwybod am roddion

Nid yw'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol (nad ydynt yn bleidiau 'llai') sydd wedi cofrestru fel ymgyrchwyr deisebau gyflwyno ffurflen rhoddion. Mae hyn yn golygu **nad** oes raid iddynt lenwi adran 4 y ffurflen; y taflenni gwaith ar gyfer rhoddion a dderbyniwyd ac a wrthodwyd na llofnodi'r datganiad rhoddion.

Rhaid i **bob** ymgyrchydd deisebau cofrestredig arall gwblhau adran 4; llofnodi'r datganiad rhoddion, (hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw roddion i roi gwybod amdanynt) a chwblhau'r taflenni gwaith ar gyfer rhoddion a dderbyniwyd ac a wrthodwyd (y tabiau **gwyrdd**) os oes gennych unrhyw roddion i roi gwybod amdanynt.

Nodwch gan ddefnyddio'r cwymplenni pa daflenni gwaith rydych yn eu cyflwyno. Os nad oes gennych unrhyw roddion a dderbyniwyd nac a wrthodwyd i roi gwybod amdanynt, nid oes angen i chi gyflwyno'r daflen waith berthnasol ond **rhaid** i chi gofnodi sero neu ddim yn y blwch cyfatebol yn adran 4.

Rhoddion a dderbyniwyd gennych

Defnyddiwch y daflen waith hon i sôn am unrhyw roddion o ffynonellau a ganiateir sy'n fwy na £500.

Am ragor o wybodaeth am roddion, gweler ein [canllawiau ar wariant a rhoddion](#).

Ar gyfer pob rhodd a dderbyniwyd gan yr unigolyn cyfrifol, mae'n rhaid i chi ddarparu'r manylion canlynol:

- enw llawn y rhoddwr - os mai cwmni cofrestredig ydyw, rhowch rif cofrestru'r cwmni hefyd
- y cyfeiriad, neu gyfeiriad cofrestredig, y rhoddwr
- statws y rhoddwr (h.y. unigolyn/cwmni/undeb llafur). Gallwch ddewis un o'r gwymplen o roddwyr a ganiateir ar y daenlen Excel.
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y derbynioch y rhodd
- y swm (ar gyfer rhodd ariannol) neu werth (ar gyfer rhodd anariannol)
- y math o rodd. Os mai rhodd anariannol ydoedd, rhowch ddisgrifiad o'r nwyddau a'r gwasanaethau a dderbyniwyd e.e. hysbysebu/safleoedd/lletygarwch

Rhoddion a wrthodwyd gennyh

Defnyddiwch y daflen waith ar gyfer rhoddion a wrthodwyd i roi gwybod am unrhyw roddion a wrthodwyd gennyh. Ar gyfer pob rhodd nad oes modd ei hadnabod neu nas caniateir a gafodd yr unigolyn cyfrifol, rhowch y manylion canlynol:

- enw'r rhoddwr, oni fydd yn anhysbys, ac os felly nodwch 'anhysbys'
- cyfeiriad y rhoddwr, ond os nad ydych yn ei wybod nodwch 'anhysbys'
- y dyddiad y cafwyd y rhodd
- swm neu werth y rhodd
- y math o rodd. Os mai rhodd anariannol ydoedd, rhowch ddisgrifiad o'r nwyddau a'r gwasanaethau a dderbyniwyd e.e. hysbysebu/safleoedd/lletygarwch
- y dyddiad y gwnaethoch ddychwelyd y rhodd a'r modd y gwnaethoch hynny

Mae enghreifftiau o roddion anariannol yn cynnwys y canlynol:

- defnydd o swyddfa am ddim neu am bris gostyngol
- taflenni fel rhodd
- llogi trafndiaeth am ddim
- gwasanaeth cynllunio gwefan am bris gostyngol

Adran 5 - Datganiadau

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol lofnodi'r datganiad gwariant.

Os ydych wedi cwblhau adran 4 o'r ffurflen, **rhaid** i'r unigolyn cyfrifol hefyd lofnodi'r datganiad rhoddion.

Cwblhau a dychwelyd y ffurflen hon i'r Swyddog Deisebau

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gwblhau a dychwelyd y ffurflen i'r Swyddog Deisebau. Rhaid i'r ffurflen gael ei chyflwyno o fewn 30 diwrnod i ddiwedd y cyfnod a reoleiddir.

Wrth ddefnyddio'r ffurflen gwariant yn Excel, er mwyn argraffu'r holl ffurflen gwariant (yn cynnwys y taflenni gwaith), dewiswch yr opsiwn 'Print entire workbook' ar y dudalen 'Print Options'.



Ble y gallaf gael rhagor o gyngor?

Gallwch gysylltu â ni i gael cyngor ar argraffnodau, gwariant a rhoddion gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Cysylltwch â'r swyddog deisebau i gael manylion ar sut i gofrestru.

Ffoniwch ni ar 0333 103 1929 neu 0333 103 1929 (Saesneg)

Neu e-bostiwch

- Lloegr: pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i <http://www.electoralcommission.org.uk/cymru>

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk.